**Cyngor Sir Penfro**

**Canllawiau cynllunio atodol ar gynnal asesiad capasiti tirwedd ar gyfer carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau**

**Nodyn esboniadol, Gorffennaf 2024**

Paratowyd yr asesiad capasiti tirwedd ar gyfer carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau ar gyfer ardal gynllunio Cyngor Sir Penfro gan White Consultants ym mis Tachwedd 2019.

Y bwriad nawr yw y dylid ei ddwyn ymlaen fel canllawiau cynllunio atodol i gefnogi Polisi GN 56 – Datblygiadau Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau, o Gynllun Datblygu Lleol newydd (CDLl 2) Cyngor Sir Penfro.

Mae'r canllawiau'n darparu asesiad systematig o gapasiti Ardaloedd Cymeriad Tirwedd presennol yn y rhan o Sir Benfro y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o wahanol fathau o ddatblygiadau carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau a mathau eraill o lety ar gyfer ymwelwyr sy'n dod i'r amlwg. Maent yn rhoi cyngor ar sail Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ynghylch a oes modd uwchraddio neu ymestyn safleoedd presennol i gynyddu'r llety sydd ar gael, neu eu hymestyn i wella ymddangosiad, a/neu a ellir cynnwys safleoedd newydd.

Fodd bynnag, nodwch fod datblygiadau ar raddfa fach iawn, megis carafannau sengl mewn cwrtil a materion yn ymwneud â thrwyddedu, y tu allan i gwmpas y canllawiau.

Mae tirweddau Sir Benfro yn amrywiol eu cymeriad. Bwriad y canllawiau cynllunio atodol yw diffinio hyd a lled eu gallu i gynnwys y math hwn o ddatblygiad heb newid sylweddol mewn cymeriad nac effeithiau anffafriol.

Mae tirweddau'r sir y tu allan i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn barhad di-dor o'r tirweddau a'r morluniau yn y Parc Cenedlaethol, gyda'r olaf yn cynnwys y rhan fwyaf o'r arfordir, yn ogystal â Mynyddoedd y Preseli ac afon Daugleddau. Er bod newid topograffig clir mewn cymeriad ar ffin y Parc Cenedlaethol mewn rhai mannau, yn aml mae rhyngwelededd, ac mae tirweddau'r sir yn ffurfio cefndir a chyd-destun pwysig i'r dirwedd arfordirol ddynodedig.

Mae'r Parc Cenedlaethol y tu allan i awdurdodaeth gynllunio Cyngor Sir Penfro ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn ei rôl fel awdurdod cynllunio lleol ar wahân, wedi cyhoeddi canllawiau cynllunio atodol ar wahân ar garafannau, gwersylla a chabanau gwyliau i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol 2 y Parc Cenedlaethol. [1]

Mae'r eitem hon o ganllawiau cynllunio atodol drafft Cyngor Sir Penfro yn rhoi gwybodaeth am gymeriad y dirwedd, gan ymhelaethu ar bolisi GN 56 CDLl 2, i ganiatáu asesiad gwybodus o unrhyw gynigion i newid safleoedd carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau presennol ac i gyflwyno datblygiadau carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau newydd o fewn ardal gynllunio'r cyngor. Bydd hyn yn

[1] Canllawiau Cynllunio Atodol Carafanau a Gwersylla – Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

sicrhau bod datblygiadau o’r fath yn digwydd mewn lleoliadau lle mae capasiti iddynt gael eu cynnwys yn foddhaol o fewn tirweddau ardal gynllunio’r cyngor, gan ystyried effeithiau posibl datblygiadau o’r fath ar dirwedd y Parc Cenedlaethol a warchodir yn statudol.

Mae’r canllawiau cynllunio atodol drafft hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â fersiwn adneuo Cynllun Datblygu Lleol 2 Sir Benfro, Cynllun Adnau 2.

Mae’r ddogfen wedi’i strwythuro i egluro’r fethodoleg a ddefnyddiwyd (adran 2), i roi trosolwg o’r materion a nodwyd yn yr asesiad (adran 3), i grynhoi sensitifrwydd a chapasiti’r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (adran 4), ac i asesu pob Ardal Cymeriad Tirwedd yn ei thro (adran 5).

Mae'r atodiadau'n ymdrin â rhestr termau (Atodiad A), canllawiau generig ar gyfer lleoli, dylunio a lliniaru (Atodiad B), a'r diffiniad o garafán (Atodiad C).

Dangosir datblygiadau gwersylla a charafannau presennol yn Sir Benfro yn Ffigur 1 y ddogfen canllawiau cynllunio atodol.  Fodd bynnag, mae hyn yn rhannol yn wybodaeth gyd-destunol ehangach a dim ond y tu allan i leoliadau’r Parc Cenedlaethol yn Sir Benfro y bydd y canllawiau cynllunio atodol yn berthnasol.